beaufortresearch

Adroddiad Ymchwil

Arolwg Barn y Cyhoedd am Gymwysterau nad ydynt yn Raddau yng Nghymru 2020

Paratowyd ar gyfer:
Cymwysterau Cymru

Paratowyd gan:
Beaufort Research

Manylion Cyswllt

Cyswllt asiantaeth: Fiona McAllister

Prosiect: B02010-3

Dyddiad: Chwefror 2021

Beaufort Research

2 Museum Place
Caerdydd
CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565
Ffacs: (029) 2037 0600

E-bost: ymholiadau@beaufortresearch.co.uk

www.beaufortresearch.co.uk

Amodau'r Contract

Oni chytunwyd eisoes, bydd hawlfraint canfyddiadau'r astudiaeth hon yn parhau i fod yn eiddo Beaufort Research Cyf ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hailgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni o flaen llaw.

Gwrthodir cyhoeddi neu ddyfynnu ar sail anghywirdeb neu gamliwio yn unig.

Mae'n rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir nodi: Beaufort Research Ltd fel darparwr, maint y sampl a dyddiadau gwaith maes.

© Beaufort Research Ltd 2021

Cynnwys

Crynodeb gweithredol....4

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull ymchwilio....7
   1.1 Cefndir ac amcanion....7
   1.2 Methodoleg....8

2. Prif ganfyddiadau....10
   2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau Safon UG a Safon Uwch....10
   2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU....14
   2.3 Barn am gymwysterau....18
   2.4 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi....21
   2.5 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol....23
   2.6 Canfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau....25

Atodiad I....27
Atodiad II....31

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

Mae Cymwysterau Cymru wedi comisiynu Beaufort Research i gynnal arolwg blynyddol o farn aelodau'r cyhoedd yng Nghymru er mwyn mesur eu hyder mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru a'r system gymwysterau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau ar gyfer arolwg 2020, yn dilyn arolygon cynharach a gynhaliwyd rhwng 2017 a 2019[1]. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd yr ymchwil gan ddefnyddio arolwg Omnibws Cymru Beaufort mis Medi sy'n cyfweld â sampl gynrychioliadol o 1,000 o oedolion o Gymru. Fe wnaeth argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 atal yr arolwg rhag cael ei gynnal yn ei ddull arferol o gyfweld wyneb yn wyneb yn y cartref. Yn lle, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolwg Medi 2020 ar-lein, gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint.

Gwnaed gwaith maes rhwng 14 Medi a 4 Hydref 2020. Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau ac yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt yn bennaf gyda 'ddim yn gwybod' fel opsiwn ymateb ychwanegol. Roedd yr holiadur yn gyson ag arolygon cynharach i olrhain newidiadau dros amser, ond efallai bod y newid yn y dull casglu data wedi arwain at rai gwahaniaethau yn y canfyddiadau.

Cafodd rhai o'r cwestiynau olrhain craidd eu cynnwys hefyd ar Omnibws Cymru mis Tachwedd i driongli canlyniadau mis Medi a helpu i asesu a oedd y newidiadau i'r system gymwysterau ac asesu yn 2020 wedi effeithio ar hyder y cyhoedd.

Crynodeb a chanfyddiadau

Roedd hyder y cyhoedd mewn cymwysterau UG/Safon Uwch yn gyffredinol uchel, fel mewn blynyddoedd blaenorol, gyda sgôr gyfansawdd o hyder o 3.66 allan o 5 mewn cymwysterau UG/Safon Uwch. Roedd hyn ychydig yn uwch na sgôr 2019 (3.60) ond nid yw'r gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall yn ystadegol arwyddocaol. Roedd y cyhoedd o'r farn bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach a'u bod yn gymwysterau dibynadwy. Fel yn 2017 i 2019, roedd rhywfaint o anghytuno ynghylch a oedd cymwysterau UG/Safon Uwch yn baratoad da ar gyfer gwaith a pha mor dda yr oedd pobl yn deall y cymwysterau (gyda thua un o bob pump yn anghytuno â'r datganiad cyntaf ac un o bob saith yn

[1] Gellir gweld yr adroddiadau hyn ar dudalen we cyhoeddiadau Cymwysterau Cymru

anghytuno â'r ail). Nid oedd tua thri o bob deg o'r cyhoedd yn gallu rhoi sylwadau ynghylch a oedd marcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir neu a oedd safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Roedd sgôr gyfansawdd o hyder y cyhoedd ar gyfer cymwysterau TGAU yn uwch nag ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, sef 3.74 (ychydig yn uwch na sgôr 2019 - 3.67). Unwaith eto, nid yw'r gwahaniaeth o flwyddyn i flwyddyn yn ystadegol arwyddocaol. Roedd barn aelodau'r cyhoedd am gymwysterau TGAU yn debyg ar y cyfan i'w barn am gymwysterau UG/Safon Uwch, gyda'r gymeradwyaeth gryfaf i TGAU am fod yn 'baratoad da ar gyfer astudiaeth bellach' ac am fod yn 'gymhwyster dibynadwy'. Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, roedd cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn anghytuno bod TGAU yn baratoad da ar gyfer gwaith (22%), er bod mwy o ddealltwriaeth o gymwysterau TGAU yn gyffredinol (dim ond 8% oedd yn anghytuno eu bod yn cael eu deall yn dda, o gymharu â 15% yn achos cymwysterau UG/Safon Uwch). Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, nid oedd cyfrannau mawr tebyg o'r cyhoedd yn gallu dweud a oedd y gwaith marcio ar gyfer TGAU yn gywir neu a oedd eu safonau'n cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn.

Syrthiodd lefelau cytuno gyda'r holl ddatganiadau hyder ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU yn 2020, er bod patrwm yr ymatebion yn ddigyfnewid, tra bod cyfran ymatebwyr yr arolwg a oedd yn methu â gwneud sylwadau ac yn ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' wedi codi o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r newid yn y dull ar gyfer 2020 i arolwg sy'n cael ei hunan-gwblhau ar-lein.

Roedd barn gymysg ynghylch a ddylid sefyll llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin (yn enwedig yn ôl oedran); roedd rhai rhwng 16 a 54 oed yn sylweddol fwy tebygol na'r rhai 55 oed a hŷn i gytuno â'r datganiad hwn. Roedd mwyafrif y cyhoedd yng Nghymru yn teimlo y dylai popeth sy'n cael ei astudio gan bobl ifanc 14 i 16 oed arwain at gymhwyster, fodd bynnag.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddai'n well gan ymatebwyr pe byddai dysgwyr yn astudio llai o bynciau TGAU yn fwy manwl yn hytrach na mwy yn llai manwl. I gefnogi hyn, roedd tri o bob pedwar oedolyn o Gymru o'r farn y dylai dysgwyr gymryd rhwng 5 a 10 pwnc TGAU erbyn 16 oed - dim ond tua un o bob deg oedd o blaid astudio 11 pwnc neu fwy. Roedd cyfrannau tebyg (8%) yn teimlo y dylai dysgwyr gymryd 4 pwnc neu lai neu nad oeddent yn gallu gwneud sylw.

Mae canlyniadau 2020 yn dangos cynnydd mewn ymwybyddiaeth o gymhwyster Bagloriaeth Cymru, gyda bron i saith o bob deg oedolyn o Gymru yn dweud eu bod

wedi clywed amdano (o'i gymharu â 60% yn 2019). Fodd bynnag, ymddengys nad yw'r cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn seiliedig ar lefelau uwch o gynefindra â'r cymhwyster - roedd y mwyafrif o'r rhai a glywodd amdano naill ai'n gwybod dim neu ychydig iawn amdano. Roedd canfyddiadau o werth elfen Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn gadarnhaol, fel mewn arolygon olrhain cynharach, ond roedd lefel is o gytundeb â'r datganiad 'Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' yn 2020 nag mewn blynyddoedd blaenorol. Mae hyn yn gyson â gostyngiadau ar fesurau eraill ar draws yr arolwg.

Roedd canfyddiadau o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2020 yn gadarnhaol, gyda lefelau uchel yn cymeradwyo eu gwerth ar gyfer dyfodol pobl ifanc yn gyffredinol ac o gymharu â chymwysterau Safon Uwch. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau o werth cymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cadarnhaol na'r farn am werth Bagloriaeth Cymru. Efallai y gellid priodoli hyn i'r ffaith bod pobl yn deall cymwysterau galwedigaethol yn fwy a'u bod yn fwy cyfarwydd â nhw na Bagloriaeth Cymru a gyflwynwyd yn fwy diweddar i ysgolion Cymru.

Fel yn 2019 pan ofynnwyd hyn gyntaf, roedd cytundeb uchel (ar 74%) bod 'cymwysterau yn helpu pobl i fwrw ymlaen mewn bywyd'. Mae cymwysterau'n cael eu gwerthfawrogi'n arbennig gan bobl hŷn a chan bobl yn y graddau cymdeithasol ABC1 - roedd y rhai 55 oed a hŷn ac ABC1 yn sylweddol fwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl iau a C2DE.

Roedd canlyniadau'r cwestiynau ychwanegol a ofynnwyd ym mis Tachwedd 2020 yn debyg iawn i'r rhai a welwyd yn arolwg craidd mis Medi. Un gwahaniaeth rhwng y ddwy don, fodd bynnag, yw'r cytundeb bod marcio cymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU yn gywir yn uwch ym mis Tachwedd nag ym mis Medi. Cododd cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno bod marcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir o 41% ym mis Medi i 46% ym mis Tachwedd a gwelwyd cynnydd tebyg ar yr un datganiad ar gyfer TGAU (o 46% i 51%). Efallai fod hyder yn y dimensiwn hwn yn is ym mis Medi wrth i'r arolwg ddigwydd yn agos at gyhoeddiad canlyniadau arholiadau ym mis Awst a'r newidiadau i sut y pennwyd graddau dysgwyr.

Yn fwy cyffredinol, nid yw'n ymddangos bod y newidiadau i'r system gymwysterau a chanslo arholiadau haf 2020 o ganlyniad i COVID-19 wedi cael effaith fawr ar hyder y cyhoedd mewn cymwysterau yng Nghymru. Ar yr un pryd, nid oedd unrhyw gwestiynau ychwanegol wedi'u cynllunio'n benodol i archwilio'r pynciau hyn yn yr arolwg olrhain naill ai ym mis Medi neu fis Tachwedd.

1. Cefndir, amcanion yr ymchwil a'r dull ymchwilio

1.1 Cefndir ac amcanion

Sefydlwyd Cymwysterau Cymru drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 fel rheoleiddiwr cymwysterau nad ydynt yn raddau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Mae'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ac yn atebol i Senedd Cymru.

Yn y Ddeddf, un o ddau brif nod Cymwysterau Cymru yw cynyddu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru. Yn 2017, comisiynodd Cymwysterau Cymru Beaufort Research i gynnal arolwg o farn y cyhoedd yng Nghymru er mwyn mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Yn 2018 dyfarnwyd y contract i gynnal arolwg hyder y cyhoedd Cymru i Beaufort am dair blynedd arall. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys canlyniadau o drydedd don y contract - 2020.

Diben cyffredinol y gwaith ymchwil yw mesur hyder y cyhoedd mewn cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru a'r system gymwysterau ac olrhain agweddau dros amser.

O ganlyniad i bandemig COVID-19, caewyd ysgolion a cholegau chweched dosbarth Cymru rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd Mehefin 2020, gyda'r mwyafrif o bobl ifanc yn dysgu ar-lein o'u cartref yn ystod y cyfnod hwnnw. Canslwyd arholiadau haf 2020 ac roedd y graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr a oedd yn cymryd cymwysterau yn seiliedig ar asesiadau athrawon.

Cynhaliwyd y prif arolwg olrhain ym mis Medi 2020, ond cafodd rhai o'r cwestiynau olrhain craidd eu cynnwys hefyd ar Omnibws Cymru mis Tachwedd i driongli canlyniadau mis Medi a helpu i asesu a oedd y newidiadau i'r system gymwysterau ac asesu yn 2020 wedi effeithio ar hyder y cyhoedd. Roedd y canfyddiadau o fis Tachwedd 2020, ar y cyfan, yn debyg iawn i'r rhai o fis Medi.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganlyniadau mis Medi, er mwyn cymharu â blynyddoedd blaenorol, ond mae canfyddiadau allweddol ton mis Tachwedd wedi'u cynnwys yn Atodiad II.

Gofynnwyd cwestiwn newydd hefyd ym mis Tachwedd i asesu barn ar sut y dylid asesu cymwysterau TGAU diwygiedig yn nodweddiadol (hynny yw, trwy arholiad ar ddiwedd y cwrs, trwy waith cwrs neu drwy gyfuniad o'r ddau). Darperir ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Atodiad II.

1.2 Methodoleg

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, cynhaliwyd ymchwil 2020 gan ddefnyddio arolwg Omnibws Cymru Beaufort mis Medi. Mae arolwg Omnibws Cymru yn cyfweld â sampl gwota gynrychioliadol o oedolion 16+ oed ledled Cymru.

Fe wnaeth argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 atal yr arolwg rhag cael ei gynnal yn ei ddull arferol o gyfweld wyneb yn wyneb mewn mannau sampl penodol ledled Cymru. Yn lle, cynhaliwyd cyfweliadau ar gyfer arolwg Medi 2020 ar-lein, gan ddefnyddio platfform cyfnewid panel ar-lein Cint™. Efallai bod y newid yn y dull casglu data wedi arwain at rai newidiadau yn y canfyddiadau, oherwydd effaith modd, ac amlygir y rhain lle bo hynny'n berthnasol yn yr adroddiad.

Mae platfform Cint™ a'i gynhyrchion yn cydymffurfio â safonau ESOMAR, MRS, ARF, MRIA, AMA, AMSRO ac Insights Association. Mae Cint™ hefyd yn cydymffurfio ag ISO 20252. Mae gwiriadau ansawdd data lluosog wedi'u hymgorffori yn system Cint™ gan gynnwys gwiriad GEO IP a CAPTCHA wrth gofrestru, dull adnabod ymatebwyr unigryw a gwiriadau ymddygiad twyllodrus. Ar ben hyn i gyd, mae Beaufort yn cynnwys ei gwestiynau a'i fesurau rheoli ansawdd ei hun yn yr arolwg ac yn eithrio ymatebwyr sy'n methu'r gwiriadau hyn.

Roedd yr arolwg yn destun rheolaethau cwota demograffig cyd-gloi oedran o fewn rhyw. Gosodwyd rheolaeth cwota ar wahân arall ar radd gymdeithasol a chynhaliwyd cyfweliadau â thrigolion pob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn ystod y cam dadansoddi, cafodd y data ei bwysoli yn ôl grŵp oedran, rhyw, grwpio awdurdodau lleol a gradd gymdeithasol i gyd-fynd â ffigurau Cyfrifiad 2011 a sicrhau ei fod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru.

Roedd yr holiadur ar gyfer arolwg Cymwysterau Cymru yn cynnwys cyfres o gwestiynau am gymwysterau ac yn defnyddio Graddfa Likert 5-pwynt yn bennaf gyda 'ddim yn gwybod' fel opsiwn ymateb ychwanegol (gweler Atodiad I). At ddibenion olrhain, roedd holiadur 2000 yn gyson â'r rhai a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd cynharach. Mae cwestiynau demograffig hefyd wedi'u cynnwys yn ôl yr arfer yn arolwg Omnibws Cymru. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl dewis cyfranogwyr.

Cafodd 1,000 o oedolion eu cyfweld rhwng 14 Medi a 4 Hydref 2020, y dewisodd 2 ohonynt ateb yn Gymraeg.

Gwallau ystadegol

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r canfyddiadau ar gyfer y sampl o ymatebwyr a gyfwelwyd yn amcangyfrif agweddau, gwybodaeth a barn y boblogaeth sydd o ddiddordeb (yn yr achos hwn, y cyhoedd). O ganlyniad, gall yr holl ganlyniadau gynnwys gwallau samplu.

Mae Tabl 1 isod yn dangos pa mor ddibynadwy yw'r canlyniadau unigol ar gyfer meintiau sampl a chanlyniadau canrannol gwahanol ar lefel hyder o 95%. Er enghraifft, wrth feddwl am y sampl gyffredinol o 1,000 o ymatebwyr a gyfwelwyd, os dywedodd 50% ohonynt eu bod yn gwybod cryn dipyn am Fagloriaeth Cymru, gallem fod 95% yn hyderus bod y gwir gyfran rhwng 46.9% a 53.1% (h.y. +/- 3.1%). Dylid defnyddio'r cyfyngau hyder a nodwyd fel canllaw bras o gofio bod yr arolwg hwn yn seiliedig ar waith samplu cwota.

Tabl 1: Dibynadwyedd ystadegol (ar lefel hyder o 95%)

	Amrediadau ar lefel hyder o 95% (ac eithrio ffactorau sy'n ymwneud â chynllun yr arolwg)		
Canlyniad yr arolwg	**50%**	**70% / 30%**	**90% / 10%**
Maint y sampl:			
1,000	+/-3.1	+/-2.8	+/-1.9
750	+/-3.6	+/-3.3	+/-2.2
500	+/-4.4	+/-4.0	+/-2.6
200	+/-6.9	+/-6.4	+/-4.2
100	+/-9.8	+/-9.0	+/-5.9

Pan ddywedir bod gwahaniaethau yn y data yn yr adroddiad hwn yn arwyddocaol, mae hyn yn cyfeirio at ganlyniad ystadegol arwyddocaol o brawf arwyddocâd ar y lefel 0.05.

2. Prif ganfyddiadau

2.1 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau Safon UG a Safon Uwch

Roedd y set gyntaf o gwestiynau yn canolbwyntio ar gymwysterau Safon UG a Safon Uwch ac roeddem yn gofyn i gyfranogwyr i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau am y cymwysterau hyn. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau. Gan fod arolwg 2020 yn cael ei gynnal ar-lein, dangoswyd yr opsiwn ymateb 'ddim yn gwybod' yn y rhestr ysgogiadau am y tro cyntaf. Rhoddwyd esboniad byr o gymwysterau Safon UG a Safon Uwch i'r cyfranogwyr cyn y cwestiwn. Yn yr adroddiad mae 'cytuno' wedi'i ddiffinio fel y cyfuniad o 'cytuno'n gryf' a 'cytuno' tra bod 'anghytuno' yn gyfuniad o 'anghytuno'n gryf' ac 'anghytuno'.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd cytundeb uchel bod 'cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a bod 'cymwysterau Safon Uwch/UG yn gymwysterau dibynadwy', gyda t75% a 70% o oedolion yng Nghymru yn cytuno a dim ond 7% yn anghytuno â phob datganiad (gweler ffigur 1 drosodd). Mae lefelau cytundeb â phob datganiad yn is nag yn 2019, fodd bynnag, pan oeddent yn 82% ac 80% yn y drefn honno.

Roedd tua chwech o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno bod 'cymwysterau UG/Safon Uwch yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr' ac roedd tua hanner y sampl yn cytuno bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda ohonynt', eu bod yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', a bod 'gwaith marcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir'.

Roedd anghytuno ar ei uchaf gyda'r datganiad 'mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', ond mae hyn wedi gostwng i 18%, o 24% yn 2019. Yn gyffredinol, roedd lefelau anghytuno yn debyg i (neu'n is na) y rhai a welwyd yn 2019.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, nid oedd lleiafrifoedd sylweddol o'r boblogaeth yn gallu dweud a oedd y ffordd y mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn cael eu marcio yn gywir (gyda 13% yn dweud 'ddim yn gwybod') a hefyd a oedd 'safonau cymwysterau UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn' (12% 'ddim yn gwybod'). Roedd y ddwy lefel heb newid o 2019.

Yn ôl pob tebyg o ganlyniad i'r newid i ddull hunan-gwblhau ar-lein, mae cyfran yr ymatebwyr ar bwynt canol y raddfa (hynny yw, yn ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno') wedi cynyddu ar gyfer pob datganiad yn 2020. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r newid yn y dull oherwydd mae cael cyfwelydd yn newid deinameg y cyfweliad. Mewn arolygon hunan-gwblhau, mae ymatebwyr yn fwy parod i roi ateb niwtral ac i gyfaddef nad ydyn nhw'n gwybod llawer am y pwnc y maen nhw'n cael ei holi amdano.

Ffigur1: Hyder mewn UG / Safon Uwch 2020 %



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno'n gryf/cytuno; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno'n gryf/anghytuno

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd pobl sy'n perthyn i'r graddau economaidd-gymdeithasol[2] ABC1 yn llawer mwy tebygol o gytuno â bron pob un o'r datganiadau am gymwysterau UG/Safon Uwch na phobl sy'n perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol C2DE. Er enghraifft, cytunodd 58% o ABC1 fod

[2] Caiff dosbarth economaidd-gymdeithasol unigolyn ei benderfynu drwy ddarganfod beth yw teitl ei swydd, a chaiff graddau cymdeithasol eu diffinio fel a ganlyn:

AB: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch neu ganolraddol
C1: Galwedigaethau goruchwylio, clercol a rheoli, gweinyddol a phroffesiynol iau
C2: Gweithwyr llafuriol medrus
DE: Gweithwyr llafuriol lled-fedrus ac anfedrus, y rhai sy'n cael pensiwn y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol a gradd isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau gan y wladwriaeth yn unig

‘cymwysterau UG/Safon Uwch yn cael eu deall yn dda gan bobl’ o gymharu â 46% o’r rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE.

Roedd menywod yn sylweddol fwy tebygol na dynion o gytuno bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn ‘gymwysterau dibynadwy’, ‘yn cael eu deall yn dda’ ac yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach.’

Roedd pobl iau 16-34 oed yn gyffredinol yn llai cadarnhaol ynghylch cymwysterau UG/Safon Uwch na grwpiau oedran eraill, er eu bod fwyaf tebygol o deimlo bod ‘gan bobl ddealltwriaeth dda o’r cymwysterau’. Roeddent yn sylweddol fwy tebygol na phobl hŷn 55 oed a hŷn i anghytuno â'r rhan fwyaf o'r datganiadau, er enghraifft bod 'cymwysterau UG/Safon Uwch yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith', eu bod yn ‘gymwysterau dibynadwy', 'yn datblygu ystod eang o sgiliau i fyfyrwyr', 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a bod ‘safonau cymwysterau UG/Safon Uwch yn cael eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn'.

Cafodd sgoriau cymedrig neu gyfartaleddau eu cyfrifo hefyd ar gyfer pob un o'r datganiadau uchod gan ddefnyddio graddfa o 1 i 5, lle'r oedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a lle'r oedd 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Yn ogystal â'r mesurau unigol, mae mesur cyfansawdd o hyder wedi cael ei ddatblygu ar gyfer pob un o'r saith datganiad. Cyfrifwyd y mesur hwn drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch ar gyfer 2020 yw 3.66 allan o 5, sydd ychydig yn uwch na sgôr 2019 (3.60). Dangosir sgoriau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 2 drosodd, ac maent yn amrywio o 3.45 yn y pen isaf (ar gyfer y datganiad bod ‘y ffordd o farcio cymwysterau UG/Safon Uwch yn gywir') hyd at 3.99 (ar gyfer y datganiad bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach').

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgoriau cymedrig ar gyfer y datganiadau bod cymwysterau UG/Safon Uwch yn ‘ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a’u bod yn ‘gymwysterau dibynadwy' a'r rhai ar gyfer pob datganiad arall.

Ffigur 2: Mesurau hyder cyfartalog 2020 – Safon Uwch / UG



Sylfaen: pob ymatebydd ac eithrio 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint y sylfaen yn amrywio yn ôl datganiad ac fe'i dangosir mewn cromfachau ar gyfer pob un)

Er bod patrwm y canlyniadau yn gyson iawn ar draws y pedair blynedd o olrhain, mae arolwg 2020 yn dangos bod lefelau cytundeb wedi gostwng ar gyfer pob datganiad (gweler ffigur 3 drosodd). Mewn rhai achosion, mae'r gostyngiad wedi bod yn fach iawn (er enghraifft, ar 'caiff safonau cymwysterau UG/Safon Uwch eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn') tra ar ddatganiadau eraill mae'n fwy o faint (er enghraifft, gyda 'Mae cymwysterau UG/Safon Uwch yn gymwysterau dibynadwy').

Gall hyn fod yn effaith modd sy'n codi o'r newid mewn methodoleg i arolwg ar-lein. Er na fu unrhyw gynnydd yn lefelau anghytundeb yn 2020, mae cyfran yr ymatebwyr a atebodd ‘ddim yn cytuno nac yn anghytuno’ i bob datganiad wedi codi, fel y nodwyd uchod.

Ffigur 3: Hyder mewn cymwysterau UG / Safon Uwch dros amser



2.2 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau TGAU

Yna, cyflwynwyd set debyg o ddatganiadau am gymwysterau TGAU i ymatebwyr yr arolwg, a gofynnwyd iddynt ddweud i ba raddau roeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad. Gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un o'r datganiadau (roedd 'ddim yn gwybod' hefyd wedi'i gynnwys yn yr opsiynau ymateb). Rhoddwyd esboniad byr o gymwysterau TGAU cyn y cwestiwn.

Fel gyda chymwysterau UG/Safon Uwch, roedd poblogaeth Cymru yn gryf o'r farn bod cymwysterau TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' a'u bod 'yn gymwysterau dibynadwy', gyda bron i wyth o bob deg yn cytuno gyda phob un o'r datganiadau hyn a llai nag un o bob deg yn anghytuno. Roedd tua saith o bob deg o'r rhai a gyfwelwyd yn cytuno fod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' a'u bod yn 'datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr' (gweler ffigur 4 drosodd).

Roedd y cytundeb ar ei isaf gyda 'mae'r ffordd y mae cymwysterau TGAU yn cael eu marcio yn gywir' (sef 46%), sydd wedi gostwng o 50% yn 2019. Yn yr un modd â'r canfyddiadau ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, mae cytundeb wedi

gostwng ar bron pob datganiad yn 2020 o'i gymharu â lefelau 2019, tra bod cyfran yr ymatebwyr a atebodd 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' wedi codi o flwyddyn i flwyddyn.

Yn gyson â chanlyniadau blynyddoedd blaenorol ac yn debyg i'r canfyddiadau ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, roedd lleiafrif sylweddol (22%) yn anghytuno bod cymwysterau TGAU yn' baratoad da ar gyfer gwaith'.

Ffigur 4: Hyder mewn cymwysterau TGAU 2020 %



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf ; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf

Fel gyda chymwysterau UG/Safon Uwch, roedd pobl sy'n perthyn i'r graddau economaidd-gymdeithasol ABC1 yn llawer mwy tebygol o gytuno gyda llawer o'r datganiadau na phobl sy'n perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol C2DE. Er enghraifft, roedd 77% o'r graddau ABC1 yn cytuno fod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' o gymharu â 66% o'r graddau C2DE, tra bod 81% o'r graddau ABC1 yn teimlo eu bod 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' o gymharu â 73% o'r graddau C2DE..

Hefyd yn gyson â'r canfyddiadau ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, roedd pobl ifanc 16 i 34 oed yn fwy negyddol na grwpiau oedran eraill ac yn sylweddol fwy tebygol na phobl dros 55 oed o anghytuno â'r rhan fwyaf o'r datganiadau. Er enghraifft, roedd 32% o'r grŵp oedran 16-34 yn anghytuno bod TGAU yn 'ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith' o gymharu â 15% o'r rheini sy'n 55 oed neu'n hŷn, tra bod 16% o'r grŵp oedran 16-34 yn anghytuno bod cymwysterau TGAU yn

'ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' o gymharu â dim ond 4% o bobl dros 55 oed sy'n dweud hyn.

Roedd llai o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn amlwg yn ôl rhyw nag ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, er bod menywod yn sylweddol fwy tebygol na dynion o gytuno bod cymwysterau TGAU 'yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' ac yn 'gymwysterau dibynadwy'.

Fel gyda'r datganiadau am gymwysterau Safon Uwch/UG, cyfrifwyd sgoriau cyfartalog ar gyfer pob un o'r datganiadau am gymwysterau TGAU. Defnyddiwyd yr un raddfa o 1 i 5, lle'r oedd 1 yn golygu 'anghytuno'n gryf' a lle'r oedd 5 yn golygu 'cytuno'n gryf'. Cyfrifwyd mesur cyfansawdd o hyder hefyd ar gyfer pob un o'r saith datganiad, drwy adio cyfartaleddau pob cwestiwn a phennu cyfartaledd cyffredinol.

Y sgôr gymedrig gyfansawdd o hyder ar gyfer cymwysterau TGAU ar gyfer 2020 yw 3.74 allan o 5. Fel gyda'r sgôr gyfansawdd ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch, mae'r sgôr hon wedi codi ychydig o'i lefel yn 2019, sef 3.67. Er bod y sgôr gymedrig gyfansawdd ar gyfer cymwysterau TGAU yn 2020, sef 3.74, ychydig yn uwch na'r sgôr gyfansawdd gyfatebol ar gyfer cymwysterau Safon Uwch/UG, sef 3.66, nid yw'r gwahaniaeth yn ystadegol arwyddocaol.

Dangosir sgoriau cymedrig ar gyfer pob datganiad unigol yn ffigur 5 drosodd, ac maent yn amrywio o 3.46 yn y pen isaf (ar gyfer y datganiad 'mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith') hyd at 3.98 (ar gyfer y datganiad 'mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy'). Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd sgôr sylweddol uwch i'r datganiad bod 'gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU' nag oedd yn wir am gymwysterau Safon Uwch/UG (3.89 yn achos cymwysterau TGAU, o'i gymharu â 3.54 ar gyfer cymwysterau Safon Uwch/UG).

Roedd y sgoriau cymedrig ar gyfer y datganiad bod 'cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach' yn uwch o lawer na'r rhai ar gyfer pob datganiad arall am y cymhwyster. Roedd hyn hefyd yn wir am gymwysterau UG/Safon Uwch.

Ffigur 5: Mesurau hyder cyfartalog 2020 - TGAU



Yn yr un modd â chymwysterau UG/Safon Uwch, mae lefelau cytundeb ar gyfer bron pob datganiad TGAU wedi gostwng yn 2020 o'u cymharu â 2019 (gweler ffigur 6 drosodd). Yr eithriad yw 'caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn', sydd heb newid. Mae'r gostyngiadau yn ganlyniad i'r ffaith bod cyfrannau mwy o ymatebwyr ar bwynt canol y raddfa yn 2020 (hynny yw, ateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'), yn hytrach na chynnydd yn y gyfran sy'n anghytuno.

Mae'r gostyngiadau mwyaf yn amlwg ar gyfer 'Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach', 'mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy' ac yn 'datblygu ystod eang o sgiliau i fyfyrwyr', gyda gostyngiadau o 5% o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer pob dimensiwn.

Ffigur 6: Hyder mewn cymwysterau TGAU dros amser



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015, 2017 - 1,008)

2.3 Barn am gymwysterau

Yn arolwg 2020 gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau:

1. Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder
2. Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster
3. Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin

Mae datganiadau 1 a 2 wedi'u cynnwys yn yr arolwg olrhain ers 2018, ac ychwanegwyd datganiad 3 at yr holiadur yn 2019. Fel gyda chwestiynau eraill, gallai'r ymatebwyr ddweud eu bod yn cytuno'n gryf, yn cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phob un (roedd 'ddim yn gwybod' yn opsiwn ymateb ar y raddfa hefyd).

Roedd yr ymatebion i'r datganiadau yn gymysg. Mae'r rhan fwyaf o oedolion Cymru yn cytuno 'Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' a 'Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheiny yn fanylach, yn hytrach na mwy o bynciau mewn llai o fanylder'. Rhannwyd barn ynghylch a ddylid 'cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin'. Dim ond traean o'r

ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r olaf, o'i gymharu â chwarter yn anghytuno â'r syniad (gweler ffigur 7 isod).

Roedd yr un effaith modd yn amlwg yma â gyda'r datganiadau hyder ar gyfer cymwysterau UG/Safon Uwch a TGAU, gyda chyfrannau uwch o ymatebwyr yn 2020 yn rhoi ymateb 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' a gostyngiad cyfatebol yn y cyfrannau sy'n cytuno â phob datganiad.

Ffigur 7: Agweddau tuag at gymwysterau 2020 %



Sylfaen: pob ymatebydd (1,000)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf
Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau cymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau cymedrig yn amrywio yn ôl datganiad ac yn cael ei ddangos mewn cromfachau ar gyfer pob un)

Roedd y rhai dan 55 oed yn sylweddol fwy tebygol o gytuno gyda 'Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin' na phobl hŷn 55 oed a hŷn. Roedd 39% o bobl 16-34 a 38% o bobl 35-54 yn cytuno â'r datganiad hwn, o'i gymharu â 27% o'r rhai 55 oed a hŷn.

Fel yn 2019, roedd y rhai a oedd yn perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol ABC1 yn llawer mwy tebygol na'r rhai o raddau economaidd-gymdeithsaol C2DE o anghytuno â'r datganiad 'Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder'. Roedd 21% o'r graddau ABC1 yn anghytuno â'r datganiad hwn o gymharu â 11% o'r ymatebwyr o raddau C2DE. Roedd yr ymatebwyr o raddau ABC1 hefyd yn llawer mwy tebygol na'r rhai o raddau C2DE o anghytuno â'r datganiad 'Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster' - roedd 22% o'r grŵp cyntaf yn anghytuno â'r datganiad hwn, o gymharu â 10% o'r ail grŵp.

Fel y soniwyd uchod, gostyngodd lefelau cytundeb gyda'r tri datganiad ychydig yn 2020 o'r lefel a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol - gweler ffigur 8.

Ffigur 8: Agweddau at gymwysterau dros amser



Note: Agree - aggregation of strongly agree/agree;

* Ychwanegwyd y datganiad yn 2019

Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015)

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi faint o bynciau TGAU y dylai dysgwyr eu hastudio erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, yn eu barn nhw. Rhoddwyd ystod o ymatebion iddynt ddewis o'u plith, o 4 neu lai i 17 a mwy.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y mwyafrif helaeth (75%) yng Nghymru o'r farn y dylai dysgwyr astudio rhwng 5 a 10 pwnc TGAU erbyn iddynt gyrraedd 16 oed, gyda 39% yn dewis rhwng 5 a 7 pwnc (cynnydd bach ers 2019) a 36% yn dewis rhwng 8 a 10 pwnc. Roedd 8% arall o'r farn y dylai dysgwyr astudio llai o bynciau (4 pwnc neu lai), tra bod 6% o'r farn y dylent astudio rhwng 11 a 13 pwnc. Dim ond 3% oedd yn teimlo y dylai dysgwyr gymryd 14 neu fwy o bynciau TGAU ac roedd 8% arall yn methu ateb (gweler ffigur 9 drosodd).

Figure 9: Barn am nifer y pynciau TGAu i'w cymryd



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015)

Roedd pobl iau yn fwy tebygol o nodi y dylai dysgwyr astudio mwy o gymwysterau TGAU erbyn iddynt gyrraedd 16 oed na phobl hŷn - roedd 15% o bobl rhwng 16 a 34 oed o'r farn y dylai dysgwyr astudio 11 o bynciau TGAU neu fwy o gymharu ag 1% yn unig o bobl 55 oed a hŷn a ddywedodd hyn.

2.4 Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru a hyder ynddi

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd i'r ymatebwyr faint, os unrhyw beth, y maent yn ei wybod am beth yw Bagloriaeth Cymru. Dywedodd bron i saith o bob 10 oedolyn yng Nghymru (69%) eu bod wedi clywed am Fagloriaeth Cymru cyn cael eu cyfweld. Mae hwn yn gynnydd amlwg o lefel ymwybyddiaeth 2019 o 60%.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd ymwybyddiaeth o'r cymhwyster newydd ar ei huchaf ymhlith pobl ifanc 16-24 oed a'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol ABC1, gydag ymwybyddiaeth o 83% ac 80% ymhlith pob un o'r grwpiau hyn.

Fodd bynnag, nid oedd tua thri o bob 10 (29%) oedolyn yng Nghymru wedi clywed am Fagloriaeth Cymru. Y rhai sy'n perthyn i raddau economaidd-gymdeithasol C2DE a'r rhai heb unrhyw gymwysterau oedd lleiaf tebygol o fod

wedi clywed am y cymhwyster (gyda 39% a 58% o'r grwpiau hyn yn y drefn honno heb glywed amdano cyn cael eu cyfweld). Nid yw'n ymddangos bod y cynnydd mewn ymwybyddiaeth o'r cymhwyster yn 2020 yn cael ei ysgogi gan lefelau uwch o gynefindra. Dywedodd bron i hanner y rhai a gafodd eu cyfweld (49% yn gyffredinol) eu bod wedi clywed am Fagloriaeth Cymru ond nad oeddent yn gwybod naill ai dim neu ddim ond ychydig amdani. Dim ond 20% ar y cyfan a oedd yn teimlo eu bod yn gwybod cryn dipyn neu lawer iawn am y cymhwyster.

Roedd pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed yn sylweddol fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwybod llawer iawn neu dipyn am Fagloriaeth Cymru na grwpiau oedran eraill, gyda 15% a 22% yn y drefn honno yn dweud hyn, o gymharu â 6% a 14% yn gyffredinol.

Ffigur 10: Bod yn gyfarwydd â Bagloriaeth Cymru %



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015; 2017 - 1,008)

Yna, dangoswyd esboniad o Fagloriaeth Cymru a'r Dystysgrif Her Sgiliau cyn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno bod y gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc. Defnyddiwyd yr un raddfa 5-pwynt â'r un a ddefnyddiwyd ar gyfer y datganiadau am gymwysterau UG/Safon Uwch a chymwysterau TGAU yn gynharach yn ystod y cyfweliad, ynghyd ag ymateb 'ddim yn gwybod'.

Mae cytundeb 'bod y gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' wedi gostwng yn 2020 i 64% (o 82% yn 2019). Mae hyn i'w

briodoli i gynnydd yng nghanran yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno yn hytrach nag unrhyw newid sylweddol yng nghanran y rhai a oedd yn anghytuno o flwyddyn i flwyddyn (gweler ffigur 11).

Mae'r sgôr gymedrig o 3.78 yn 2020 ar gyfer y datganiad hwn yn sylweddol is na chymedr 2019 (4.08).

Ffigur 11: Hyder ym Magloriaeth Cymru dros amser %



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015, 2017 - 1,008)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf
Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau cymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau cymedrig yn cael ei ddangos mewn cromfachau)

2.5 Hyder y cyhoedd mewn cymwysterau galwedigaethol

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr hefyd roi eu barn ar gymwysterau galwedigaethol, sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau cysylltiedig â gwaith, sy'n cael eu hastudio yn yr ysgol neu golegau Addysg Bellach. Rhoddwyd dau ddatganiad gwahanol i ymatebwyr ynghylch cymwysterau galwedigaethol a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phob un.

Roedd wyth o bob deg oedolyn yng Nghymru yn cytuno bod 'cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc', tra bod saith o bob deg yn cytuno bod 'ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed gystal ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc'. Roedd lefelau'r anghytuno â phob datganiad yn isel - sef 4% a 8% yn y drefn honno (gweler ffigurau 12 a 13).

Yn unol â chanfyddiadau eraill yn 2020, mae cytundeb gyda'r ddau ddatganiad wedi gostwng o 2019 (oherwydd cyfran uwch o ymatebwyr ar bwynt canol y raddfa) ond mae cytundeb yn parhau i fod yn uchel. Mae'r sgoriau cymedrig ar gyfer 2020 ar gyfer pob datganiad yn sylweddol is nag yn 2019, fodd bynnag.

Ffigur 12: Hyder mewn cymwysterau galwedigaethol dros amser - I %



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015; 2017 - 1,008)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf
Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau cymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau cymedrig yn cael ei ddangos mewn cromfachau)

Ffigur 13: Hyder mewn cymwysterau galwedigaethol dros amser - II ?



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000; 2018 – 1,015; 2017 - 1,008)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf
Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau cymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau cymedrig yn cael ei ddangos mewn cromfachau)

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd canfyddiadau o werth cymwysterau galwedigaethol yn llawer mwy cadarnhaol na'r farn am werth Bagloriaeth Cymru. Mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y sgôr gymedrig ar gyfer y datganiad 'Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc' a'r sgôr gymedrig ar gyfer datganiad tebyg am y Dystysgrif Her Sgiliau ('Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau' yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc').

2.6 Canfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau

Roedd y cwestiwn olaf yn gofyn i ymatebwyr am ganfyddiadau o ddefnyddioldeb cymwysterau.

Roedd bron i dri o bob pedwar o'r rhai a gafodd eu cyfweld (74%) yn cytuno fod 'Cymwysterau yn helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd' tra bod llai nag un o bob deg (8%) yn credu i'r gwrthwyneb. Nid oedd 17% arall yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd pobl hŷn 55 oed a hŷn yn llawer mwy tebygol o gytuno â'r datganiad hwn na phobl ifanc 16-34 a 35-54 oed, felly hefyd y rhai yn y grwpiau economaidd-

gymdeithasol ABC1 o gymharu â'r rhai yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2DE.

Ffigur 14: Canfyddiadau o bwysigrwydd cymwysterau dros amser %



Sylfaen: pob ymatebydd (2020 – 1,000; 2019 – 1,000)
Noder: Cytuno – cyfuniad o cytuno/cytuno'n gryf; Anghytuno – cyfuniad o anghytuno/anghytuno'n gryf
Nid yw'r sylfaen ar gyfer sgoriau cymedrig yn cynnwys 'ddim yn gwybod / gwrthod' (mae maint sylfaen sgoriau cymedrig yn amrywio

Atodiad I

Holiadur yr arolwg

B02010_3 Omnibws Cymru mis Medi
Cwestiynau Cymwysterau Cymru 2020 - TERFYNOL 7.09.20

GOFYN I BAWB

C1. Hoffem ofyn rhai cwestiynau i chi am eich barn ar gymwysterau mewn ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru. I ddechrau, rhai cwestiynau am gymwysterau Safon Uwch ac UG.

Mae cymwysterau UG yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd blwyddyn gyntaf y chweched dosbarth (blwyddyn 12) neu'r coleg. Mae canlyniad cymhwyster UG yn cyfrannu at radd y Safon Uwch gyffredinol. Mae cymwysterau Safon Uwch yn gymwysterau a gaiff eu cwblhau ar ddiwedd ail flwyddyn y chweched dosbarth (blwyddyn 13) neu'r coleg.

I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau Safon Uwch / UG? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*
CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP

i) Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG
ii) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn gymwysterau dibynadwy
iii) Caiff safonau cymwysterau Safon Uwch/UG eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
iv) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
v) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
vi) Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
vii) Mae gwaith marcio cymwysterau Safon Uwch/UG yn gywir

GOFYN I BAWB

C2. Nawr rhai cwestiynau am gymwysterau TGAU. Cymwysterau TGAU yw'r prif gymwysterau y mae dysgwyr rhwng 15 a 16 oed yn eu

cwblhau fel arfer ar ôl astudio am ddwy flynedd. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am gymwysterau TGAU? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP

i) Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU
ii) Mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy
iii) Caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn
iv) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach
v) Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith
vi) Mae cymwysterau TGAU yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr
vii) Mae gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir

GOFYN I BAWB

C3. Cymerir Bagloriaeth Cymru mewn ysgolion a cholegau. Faint, os o gwbl, ydych chi'n ei wybod am gymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Llawer iawn
Cryn dipyn
Ychydig
Wedi clywed amdano ond ddim yn gwybod unrhyw beth amdano
Byth wedi clywed amdano cyn heddiw

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

C4. Craidd cymhwyster Bagloriaeth Cymru yw'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n gymhwyster annibynnol. Nod y Dystysgrif Her Sgiliau yw datblygu sgiliau bywyd a gwaith megis meddwl yn feirniadol, datrys problemau, cynllunio a threfnu.
I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol am gymhwyster Bagloriaeth Cymru? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

i) Mae'r gallu i astudio ar gyfer Tystysgrif Her Sgiliau yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C5. Mae llawer o bobl ifanc yn astudio cymwysterau galwedigaethol mewn Colegau Addysg Bellach yn lle astudio cymwysterau Safon Uwch. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.
I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

i) Mae ennill cymhwyster galwedigaethol yn lle cymwysterau Safon Uwch yn 18 oed gystal ag ennill cymwysterau Safon Uwch i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C6. Mae rhai pobl ifanc mewn ysgolion yn astudio cymwysterau galwedigaethol ar y cyd â'u cymwysterau TGAU. Mae'r cymwysterau galwedigaethol hyn yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â gwaith.
I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

i) Mae cymwysterau galwedigaethol a astudir yn yr ysgol, yn werthfawr i ddyfodol pobl ifanc

GOFYN I BAWB

C7. Gan feddwl am TGAU eto, i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*
CAIFF Y DATGANIADAU EU TREFNU AR HAP

i) Dylai dysgwyr astudio llai o bynciau TGAU a'r rheini yn fanylach, yn hytrach nag astudio mwy o bynciau mewn llai o fanylder
ii) Dylai popeth y mae dysgwyr 14 i 16 oed yn ei astudio arwain at gymhwyster
iii) Dylid cynnal llai o arholiadau ar bapur a mwy ar y sgrin

GOFYN I BAWB

C8. Sawl pwnc TGAU y dylai dysgwyr eu cymryd erbyn 16 oed? *Ticiwch un yn unig*

4 neu lai
5-7
8-10
11-13
14-16
17+

Ddim yn gwybod

GOFYN I BAWB

C9. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? *Graddfa: cytuno'n gryf, cytuno, ddim yn cytuno nac yn anghytuno, yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf, ddim yn gwybod*

i) Mae cymwysterau'n helpu pobl i ddod ymlaen mewn bywyd

GOFYN I BAWB

C10. Ydych chi mewn addysg neu a oes gennych unrhyw blant y mae'r sefyllfaoedd canlynol yn berthnasol iddynt? *Ticiwch bob un sy'n berthnasol*

Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn yr ysgol gynradd
Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth
Oes – Mae gennyf blentyn / plant yn y brifysgol neu goleg
Ydw – Rwyf yn yr ysgol uwchradd neu goleg chweched dosbarth
Ydw – Rwyf yn y brifysgol neu goleg
Na

GOFYN I BAWB

C11. Gan ystyried chi eich hun, beth yw eich cymhwyster addysgol lefel uchaf? *Ticiwch un yn unig*

TGAU, Lefel O, Gradd O, Gradd Safonol neu debyg
Safon Uwch, Uwch yr Alban, Astudiaeth Chweched Dosbarth neu debyg

HNC neu HND
Gradd Sylfaen
Gradd Uwch
Dim cymwysterau
Mewn addysg o hyd
Eraill

Ddim yn gwybod

Atodiad II

Cymhariaeth o ganlyniadau arolwg mis Medi a mis Tachwedd 2020

Tabl A1: Hyder mewn cymwysterau UG/Safon Uwch

	Pawb Medi 2020		**Pawb Tachwedd 2020**		**Medi 2020**	**Tach 2020**
	% Cytuno	*% Anghytuno*	*% Cytuno*	*% Anghytuno*	*Sgôr gymedrig*	*Sgôr gymedrig*
Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach	75	7	76	6	3.99	4.06
Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn gymwysterau dibynadwy	70	7	74	5	3.97	4.05
Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr	59	11	60	12	3.68	3.69
Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau Safon Uwch/UG	52	15	53	15	3.54	3.55
Mae cymwysterau Safon Uwch/UG yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith	52	18	53	22	3.50	3.47
Caiff safonau cymwysterau Safon Uwch/UG eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn	45	13	52	13	3.47	3.56
Mae gwaith marcio cymwysterau Safon Uwch/UG yn gywir	41	11	46	11	3.45	3.48

Sylfaen: yr holl ymatebwyr (Medi - 1,000; Tach - 1,002; ar gyfer sgoriau cymedrig, mae'r sylfaen yn eithrio ddim yn gwybod ac yn amrywio rhywfaint yn ôl datganiad)
Graddfa ar gyfer sgoriau cymedrig: cytuno'n gryf = %, anghytuno'n gryf = 1

Tabl A2: Hyder mewn cymwysterau TGAU

	Pawb Medi 2020		Pawb Tachwedd 2020		Medi 2020	Tach 2020
	% Cytuno	*% Anghytuno*	*% Cytuno*	*% Anghytuno*	*Sgôr gymedrig*	*Sgôr gymedrig*
Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer astudio ymhellach	77	8	77	7	3.97	3.99
Mae cymwysterau TGAU yn gymwysterau dibynadwy	76	7	78	4	3.98	4.08
Mae gan bobl ddealltwriaeth dda o gymwysterau TGAU	71	8	73	7	3.89	3.93
Mae cymwysterau TGAU yn datblygu amrywiaeth eang o sgiliau i fyfyrwyr	67	12	65	11	3.73	3.75
Caiff safonau cymwysterau TGAU eu cynnal o flwyddyn i flwyddyn	54	12	54	14	3.61	3.57
Mae cymwysterau TGAU yn ffordd dda o baratoi ar gyfer gwaith	54	22	52	23	3.46	3.43
Mae gwaith marcio cymwysterau TGAU yn gywir	46	11	51	11	3.50	3.57

Sylfaen: yr holl ymatebwyr (Medi - 1,000; Tach - 1,002; ar gyfer sgoriau cymedrig, mae'r sylfaen yn eithrio ddim yn gwybod ac yn amrywio rhywfaint yn ôl datganiad)
Graddfa ar gyfer sgoriau cymedrig: cytuno'n gryf = %, anghytuno'n gryf = 1

Tabl A3: C. Mae cymwysterau TGAU yn mynd i gael eu diwygio erbyn 2027. Yn gyffredinol, sut ydych chi'n meddwl y dylid asesu'r TGAU diwygiedig yn nodweddiadol?

	Tachwedd 2020 %

Lle bo modd, dylid asesu cymwysterau TGAU bob amser trwy arholiad ar ddiwedd y cwrs	15
Lle bo modd, dylid asesu cymwysterau TGAU bob amser trwy waith cwrs	17
Lle bo modd, dylid asesu cymwysterau TGAU bob amser trwy gyfuniad o arholiadau a gwaith cwrs	63
Ddim yn gwybod	6
Sylfaen: holl ymatebwyr (1,002)	